



**CYNULLIAD CENEDLAETHOL**

**CYMRU**

**PWYLLGOR DEDDFAU**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL**

**1999-2000**

**\*\*\*\***

**CRYNODEB O WAITH Y PWYLLGOR DEDDFAU**

# 1999-2000

## **CYFLWYNIAD:**

Rôl y Pwyllgor Deddfau yw archwilio deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn fanwl i sicrhau y cydymffurfir â'r holl ofynion perthnasol. Nodir ei seiliau statudol yn adrannau 58 a 59 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a'i swyddogaethau yn Rheol Sefydlog 11.

Dyma'r Adroddiad Blynyddol cyntaf i Aelodau ar waith y Pwyllgor Deddfau. Cynhaliodd y Pwyllgor Deddfau ei gyfarfod cyntaf ar 29<sup>ain</sup> Mehefin 1999 gan gyfarfod 32 o weithiau yn ystod y cyfnod hyd at fis Gorffennaf 2000. Yn ystod y cyfnod hwnnw, ystyriodd y Pwyllgor Deddfau gyfanswm o 117 darn o is-ddeddfwriaeth gan gynnig nifer o sylwadau ac arsylwadau.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig trosolwg o adroddiadau'r Pwyllgor ar bob darn o ddeddfwriaeth a archwiliwyd yn fanwl ac yn ystyried effaith argymhellion a sylwadau'r Pwyllgor. Darperir y canlyniadau hefyd ar ffurf tabl crynodeb. Mae'r adroddiad hefyd yn edrych ar waith ehangach y Pwyllgor gan gynnwys ei ymdrechion i helpu ffurfio cyflwyniad a gwella ansawdd deddfwriaeth y Cynulliad Cenedlaethol.

## **Adrian Green**

Clerc,

Pwyllgor Deddfau

Medi 2000

## **DADANSODDIAD O'R FLWYDDYN GYNTAF:**

### **Rheol Sefydlog 11.5**

Mae Rheol Sefydlog 11.5 yn amlinellu prif swyddogaethau'r Pwyllgor gan ddarparu seiliau i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig i orchmynion. Mae'r seiliau fel a ganlyn:

- amheuaeth a yw'r ddeddfwriaeth o fewn pwerau'r Cynulliad
- fe'i eithrir rhag her yn y llysoedd
- ymddengys fod ganddo effaith ôl-weithredol

- o angen eglurhad pellach ar ei ffurf neu ystyr
- o ei ddrafftio'n ymddangos yn ddiffygiol; neu
- o ymddengys fod anghysonderau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg

Cyn adrodd i'r Cynulliad, mae'r Pwyllgor yn hysbysu'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol o'i fwriad gan ei wahodd ef neu hi i gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 11.4.

Gwahoddodd y Pwyllgor i'r Cynulliad roi sylw arbennig i ddeddfwriaeth ar 14 achlysur gwahanol (12% o orchmynion) am y rhesymau canlynol:

• Diffygion drafftio (8 achos)

- LC 4: Rheoliadau Addysg (Gwerthuso Athrawon Ysgol) (Cymru) 1999.

(Gwnaed y rheoliadau o dan y weithdrefn frys)

*Derbyniodd yr Ysgrifennydd Cynulliad y pwyntiau a wnaed gan y Pwyllgor a chytunodd i'w cadw mewn golwg pan fydd y rheoliadau'n cael eu hadolygu nesaf.*

- LC 18: Gorchymyn Ymgymeryr D•r (Gwerthoedd Trethiannol) (Cymru) 1999.

(cyflwynwyd o dan Weithdrefn Sefydlog)

*Derbyniodd yr Ysgrifennydd Cynulliad y pwyntiau a wnaed gan y Pwyllgor. O ganlyniad tynnwyd y Gorchymyn yn ôl a'i adolygu.*

- LC 47: Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Cyfrifiadau Angenrheidiol)

(Cymru) 2000.

(cyflwynwyd o dan Weithdrefn Sefydlog)

*Derbyniodd yr Ysgrifennydd Cynulliad y pwyntiau a wnaed ac adolygwyd y rheoliadau o ganlyniad i hynny.*

- LC 49: Rheoliadau Hadau (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) 2000.

(cyflwynwyd o dan Weithdrefn Sefydlog)

*Derbyniodd yr Ysgrifennydd Cynulliad y pwynt ac adolygwyd y rheoliadau o ganlyniad i hynny.*

- LC 57: Gorchymyn Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cyfalaf Cychwynnol) (Cymru) 2000.

(cyflwynwyd o dan Weithdrefn Sefydlog)

*Derbyniodd yr Ysgrifennydd Cynulliad y pwynt ac adolygwyd y rheoliadau o ganlyniad i hynny.*

- LC 70: Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau ar gyfer Adfer y Stoc Penfreision) (Môr Iwerddon) (Cymru) 2000

(Gwnaed y rheoliadau o dan y weithdrefn frys)

*Derbyniodd yr Ysgrifennydd Cynulliad fod y Gorchymyn yn dechnegol ddiffygiol a nododd sylw'r Pwyllgor nad oedd y gwall yn effeithio ar ddilysrwydd yr offeryn.*

- LC 87: Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ynghylch

Cwotâu a Physgota gan Drydydd Gwledydd) (Cymru) 2000

(Gwnaed y rheoliadau o dan y weithdrefn frys)

*Roedd y cyfeiriadau anghywir yn y Gorchymyn yn gyfystyr â drafftio diffygiol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad fod hyn yn wall gweinyddol nad oedd yn effeithio ar ddilysrwydd y Gorchymyn.*

- LC 88: Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro â Lloeren) (Cymru) 2000

(Gwnaed y rheoliadau o dan y weithdrefn frys)

*Mae'r un sylwadau yn berthnasol i'r rheiny a roddwyd uchod (LC 87).*

• Effaith ôl-weithredol (3 achos) – Rh.S. 11.5(iii)

- LC 12: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Costau Teithio a Dileu Taliadau) Diwygio (Cymru) 1999.

(Gwnaed y rheoliadau o dan y weithdrefn frys)

*Gwnaed y rheoliadau a daethant i rym ar yr un diwrnod. Er nad yw hynny'n effeithio ar ddilysrwydd y rheoliadau, mae yna, fodd bynnag, ran o'r diwrnod yn dechnegol pan fyddai ganddynt effaith ôl-weithredol. Derbyniwyd hynny gan yr Ysgrifennydd Cynulliad.*

- LC 13: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) Diwygio (Cymru) 1999.

(Gwnaed y rheoliadau o dan y weithdrefn frys)

*Gwnaed y Rheoliadau hyn a daethant i rym ar yr un diwrnod hefyd. Derbyniodd yr Ysgrifennydd Cynulliad hyn a dywedodd fod hyn o ganlyniad i wall gweinyddol.*

- LC 97: Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000.

(cyflwynwyd o dan Weithdrefn Sefydlog)

*Fe'u gwnaed a daethant i rym ar yr un diwrnod. Unwaith eto, o ganlyniad i wall gweinyddol.*

• Amheuaeth a yw'r ddeddfwriaeth o fewn pwerau'r Cynulliad

- LC 62: Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau Taladwy) (Cymru) 2000

(Gwnaed y rheoliadau o dan y weithdrefn frys)

*Derbyniodd yr Ysgrifennydd Cynulliad safbwyntiau'r Pwyllgor gan ddwyn y gwelliannau yn y rheoliadau ymlaen.*

- LC 96: Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynau ar gyfer Cerbydau) (Cymru) 2000.

(cyflwynwyd o dan Weithdrefn Sefydlog)

*Yn dilyn gohebiaeth gyda'r Ysgrifennydd Cynulliad a dadl mewn cyfarfod llawn, adolygwyd y rheoliadau drafft i adlewyrchu canfyddiadau adroddiad y Pwyllgor.*

• Methiant i gwrdd â gofynion statudol a chyfreithiol eraill – Rh.S. 11.5(v)

- LC 101: Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Rheoli'r Gymuned) (Cymru) 2000.

*Gwnaed y Gorchymyn o dan weithdrefn frys ar 29<sup>ain</sup> Mawrth ond ni chafodd ei ystyried gan y Pwyllgor Deddfau tan 6<sup>ed</sup> Mehefin. Roedd hyn yn doriad ar Rh.S.22.26, sy'n gofyn i'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol gyflwyno gorchymyn a wnaed o dan y Weithdrefn Frys i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl ar ôl iddo gael ei wneud. Golygai hyn na chafodd yr Aelodau gyfle i weld adroddiad y Pwyllgor yn y cyfnod o 40 diwrnod a ganiateir i geisio diddymu'r Gorchymyn (Rh.S.22.27). Ni chyhoeddwyd y Gorchymyn ar y pryd ac ystyriodd y Pwyllgor fod hyn yn doriad ar y gofyniad statudol.*

## **Sylwadau / Arsylwadau Cyffredinol**

Ar wahân i'w gyfrifoldebau o dan Reol Sefydlog 11.5, mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad wedi cynnwys sylwadau a fwriedir i wella ansawdd, effeithiolrwydd a chyflwyniad deddfwriaeth y Cynulliad.

O'r cychwyn cyntaf mae'r Cynulliad wedi mynegi y dylai deddfwriaeth y Cynulliad gael ei drafftio mewn arddull fodern gan ddefnyddio iaith glir, blaen. Anogir brawddegau byrion. Bu'r neges hon yn destun gohebiaeth rhwng y Cadeirydd, y Prif Ysgrifennydd a'r Llywydd. Drwy ei ymgynghorwyr cyfreithiol, mae'r Pwyllgor wedi astudio mentrau yr ymgymerydd â hwy gan y Pwyllgor Ailysgrifennu Cyfraith Dreth yn San Steffan; a'r rheiny yr ymgymerydd â hwy yn Seland Newydd lle y bo arddull drafftio newydd, symlach wedi cael eu mabwysiadu. Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion ar yr angen am fwy o eglurder neu pan y gallai drafftio fod wedi'i symleiddio i gynorthwyo'r darllenydd ar 72 achlysur (61%).

Thema a ymddangosodd yng ngwaith y Pwyllgor oedd yr awydd i osgoi'r defnydd o iaith sy'n gwahaniaethu rhwng cenedl enwau yn neddfwriaeth y Cynulliad. Cynhwysodd wyth darn o deddfwriaeth (7%) a ystyriwyd gan y Pwyllgor gyfeiriadau o'r fath. Fodd bynnag, ymddangosodd enghreifftiau o'r arfer hwn yn llai amlwg pan sylweddolwyd bod y Pwyllgor yn rhoi pwys mawr ar y mater hwn.

Pryder arall a godwyd oedd yr arfer o ddrafftio deddfwriaeth y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnwys cyfeiriadau estynedig at reoliadau cyfatebol yn Lloegr. Er y gall hwn fod yn ffordd gyflym a chyfleus o gynhyrchu gorchmynion drafft, roedd aelodau o'r farn bod defnyddwyr y ddeddfwriaeth yng Nghymru o dan anfantais gan fod yn rhaid iddynt hefyd bwrcasu'r rheoliadau Seisnig er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyflawn o'r ddeddfwriaeth Gymreig. Cwestiynwyd hefyd a ellid disgwyl i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried gorchymyn drafft a ddrafftwyd yn y modd hwn yn gyflawn mewn cyfarfod llawn heb weld y ddeddfwriaeth Seisnig gyfatebol. Deallir y bydd ymdrechion taer yn cael eu gwneud i osgoi'r arfer hwn yn y dyfodol. Yn wir, cytunodd y Pwyllgor Busnes gyda safbwynt y Pwyllgor Deddfau drwy nodi nad ydynt hwy chwaith yn dymuno gweld deddfwriaeth wedi'i drafftio yn y modd hwn.

Roedd 28 (24%) o'r gorchmynion a osodwyd gerbron y Pwyllgor yn cynnwys gwallau argraffu neu wallau gramadegol. Gan fod Rheolau Sefydlog wedi'u drafftio'n wreiddiol roedd yn arbennig o anodd gwneud mân gywiriadau i Orchmynion drafft unwaith iddynt gael eu gosod gerbron y Cynulliad ar gyfer ystyriaeth mewn cyfarfod llawn. Fodd bynnag o ganlyniad i bwysau oddi wrth y Pwyllgor oedd gwnaed gwelliant i Reol Sefydlog 22 er mwyn darparu yn arbennig ar gyfer mân wallau drafftio ar ôl i'r drafftiau gael eu gosod gerbron y Cynulliad drwy gyfrwng "Memorandwm Cywiriadau".

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol mewn safle unigryw yn y DU wrth greu deddfwriaeth ddwyieithog. Felly mae'n deyrnged i safonau drafftio yn Gymraeg mai 4 adroddiad (3%) yn unig oedd yn cynnwys cyfeiriadau at anghysonderau rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Roedd nifer o'r rhain yn codi pwyntiau o egwyddor neu arddull er enghraifft yr angen i ymgorffori termau gwahanol (a thalfyriadau) yn Gymraeg ac yn Saesneg; a'r canlyniadau ar gyfer trefn yr wyddor. Un enghraifft oedd lle nad ystyriwyd bod yr ymadrodd union gyfatebol ar gyfer "General Practitioner" sef "Ymarferydd Cyffredinol" yn cyfleu'r ystyr gystal â "Meddyg Teulu".

## **Targed y Cadeirydd**

Mynegodd y Cadeirydd safbwynt ynglŷn â'r ffaith yr adlewyrchir cyfran sylweddol o lwyddiant y Pwyllgor ym maint a chanlyniad adroddiadau'r Ymgynghorydd Cyfreithiol i'r Pwyllgor.

Mae'n amlwg y gall y Pwyllgor, lle bo'r adroddiadau hynny'n fyr iawn, yn cynnwys ychydig o sylwadau neu ddim sylwadau o gwbl, fodloni ei hun bod y cyfreithwyr drafftio yn rhagweld ei safbwyntiau.

Hyd yma, 25 adroddiad yn unig ar orchmynion (21%) sydd wedi cynnwys unrhyw sylwadau neu arsylwadau sylweddol o gwbl.

## **Gweithdrefn Frys (Rheol Sefydlog 22.25)**

Gwnaed 47 darn o ddeddfwriaeth y Cynulliad (40%) a osodwyd gerbron y Pwyllgor o dan y Weithdrefn Frys. Adroddwyd ar 9 ohonynt (8%) wedi hynny o dan Reol Sefydlog 11.5 a chawsant eu dwyn i sylw arbennig y Cynulliad.

Lle y bo deddfwriaeth yn cael ei gwneud yn y modd hwn, yn aml nid oes cyfle i ymgorffori unrhyw welliannau a awgrymwyd gan y Pwyllgor (oni bai bod y ddeddfwriaeth eto i gyrraedd y cam argraffu terfynol). Mae'r Pwyllgor wedi mynegi pryder ar sawl achlysur ynglŷn â'r canlyniadau ar gyfer rheoli ansawdd sy'n deillio o ddefnydd cyson o'r weithdrefn hon.

Gwaethygydd y broblem hon ar achlysuron gan oedi yn yr amser a gymer i dderbyn Gorchmynion. Mae hyn yn peryglu cyfle'r aelodau i geisio diddymu Gorchmynion o fewn y cyfnod o 40 diwrnod gwaith a ganiateir (Rh.S.22.27) – y gwrthbwysiad a ymgorfforwyd i'r defnydd o'r Weithdrefn Frys gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

## Cyhoeddi

Mae'r Pwyllgor wedi ceisio monitro problemau y daethpwyd ar eu traws wrth sicrhau y cyhoeddir deddfwriaeth y Cynulliad yn brydlon gan dynnu ei bryderon i sylw'r Prif Ysgrifennydd a'r Llywydd.

### Gweithgareddau Eraill

Mae'r Pwyllgor wedi cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau yn gysylltiedig â'i rôl. Croesawyd ymweliad defnyddiol a llawn gwybodaeth gan ddirprwyon o Bwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban ym mis Mawrth a threfnwyd ymweliad atynt hwy yn ddiweddar. Cynhaliodd y Pwyllgor ar y cyd gyda Chymdeithas y Cyfreithwyr ymweliad gan gynrychiolwyr o'r Pwyllgor Adolygu Rheoliadau De Cymru Newydd ym mis Gorffennaf ac mae cynllun ar droed i ymweld â Th•r Cyffredin er mwyn cyfarfod ag Aelodau o'r Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol. Mae'r Pwyllgor wedi meithrin perthynas weithio dda gyda Chymdeithas y Cyfreithwyr a gyflwynodd femrwn i'r Cynulliad Cenedlaethol drwy law'r Llywydd i goffáu pasio'r darn cyntaf o ddeddfwriaeth y Cynulliad ym mis Gorffennaf 1999. Caiff y memrwn ei arddangos yn Neuadd y Cynulliad.

Mae'r Pwyllgor wedi mynegi diddordeb byw yng ngoblygiadau'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998 ar gyfer y Cynulliad ac roedd yn allweddol yn y broses a arweiniodd at newidiadau i Reoliadau Personau Anabl (Bathodynau ar gyfer Moduron) (Cymru) 2000. Mae'r Pwyllgor wedi elwa yn ddiweddar ar gyflwyniad addysgiadol yn ymwneud â'r testun pwysig hwn gan gyn gyfreithiwr o'r Llys Hawliau Dynol Ewropeaidd yn Strasbourg sydd yn gweithio i Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol bellach.

Cymerodd Adran yr Ysgrifennydd ran mewn nifer o weithgareddau er mwyn cynyddu proffil y Pwyllgor a'i rôl ymhlith staff y Cynulliad. Mae aelodau o Adran yr Ysgrifennydd wedi cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau hyfforddi a gweithdai ar gyfer staff er mwyn egluro rôl y pwyllgor yn y broses ddeddfwriaethol. Bu ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor yn allweddol wrth gynnig cyngor ynghylch newidiadau i Reol Sefydlog 22 ac maent wedi cymryd rhan mewn seminarau datganoli ar gyfer swyddogion a chyfreithwyr o'r tu allan.

### Materion Gweithredol

Er gwaethaf y dyddiadau cau byr a achosir gan gyfarfodydd wythnosol, mae gwaith ochr weithredol y Pwyllgor wedi'i gyflawni'n gymharol ddiraffferth. Unwaith y gosodwyd gorchymyn drafft gerbron y Cynulliad roedd yn ymddangos ar yr agenda nesaf oedd ar gael, ynghyd ag adroddiad cysylltiedig gan yr ymgynghorydd cyfreithiol. Nod Adran yr Ysgrifennydd yw darparu papurau i Aelodau ddau ddiwrnod gwaith cyn y cyfarfod. Ar ôl pob cyfarfod mae Adran yr Ysgrifennydd yn sicrhau bod Adroddiadau'r Pwyllgor yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad cyn gynted â phosibl, yn aml ar yr un diwrnod. Mae'r adroddiadau a'r cofnodion yn cael eu rhoi ar y mewnwrwyd a'r rhyngwrwyd o fewn 2 ddiwrnod gwaith a'r nod yw anfon llythyrau oddi wrth y Cadeirydd o fewn yr amserlen hon.

### GWAITH Y PWYLLGOR DEDDFAU: 1999-2000

Cyf. Rhif:	Defnydd o'r Weithdrefn Frys  (RhS.22.26)	Rh.S.11.5 (*)  (Seiliau ar gyfer Tynnu Sylw Arbennig y Cynulliad i Is- Ddeddfwriaeth)	<b>SYLWADAU CYFFREDINOL</b>	Ystyriwyd sylwadau'r Pwyllgor yn y fersiwn terfynol a argraffwyd  (Do / Naddo)
---------------	---	---	-----------------------------	---

			<b>Awgrymiadau am yr angen am fwy o eglurder neu lle y gellir symleiddio drafftio i gynorthwyo'r darllenydd.</b>	<b>Gwallau argraffu, gwallau gramadegol neu fân wallau drafftio.</b>	<b>Anghysonderau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg</b>	<b>Defnydd o iaith sy'n gwahan-iaethu ar sail cenedl enwau</b>	
<b>LC01</b>							Unioni'r testun
<b>LC02</b>							Naddo
<b>LC03</b>							Naddo
<b>LC04</b>							Naddo
<b>LC05</b>							Naddo
<b>LC06</b>							Naddo
<b>LC07</b>							Naddo
<b>LC08</b>							Naddo
<b>LC09</b>							Naddo
<b>LC10</b>							Naddo
<b>LC11</b>							Do
<b>LC12</b>							Naddo
<b>LC13</b>							Naddo
<b>LC14</b>							Naddo
<b>LC15</b>							Do
<b>LC16</b>							Do
<b>LC17</b>							Do



<b>LC18</b>							Do
<b>LC18(D)</b>							
<b>LC19</b>							Do
<b>LC20</b>							Do
<b>LC21</b>							Do
<b>LC22</b>							Do
<b>LC23</b>							Do
<b>LC24</b>							Ni Wnaed Sylwadau
<b>LC25</b>							Ni Wnaed Sylwadau
<b>LC26</b>							Ni Wnaed Sylwadau
<b>LC27</b>							Ni Wnaed Sylwadau
<b>LC28</b>							Ni Wnaed Sylwadau
<b>LC29</b>							Ni Wnaed Sylwadau
<b>LC30</b>							Ni Wnaed Sylwadau
<b>LC31</b>							Ni Wnaed Sylwadau
<b>LC32</b>							Ni Wnaed Sylwadau
<b>LC33</b>							Ni Wnaed Sylwadau
<b>LC34</b>							Ni Wnaed Sylwadau
<b>LC35</b>							Ni Wnaed Sylwadau
<b>LC36</b>							Ni Wnaed Sylwadau
<b>LC37</b>							Naddo

<b>LC38</b>							Yr awgrym i rannu'r nodyn esboniadol yn unig
<b>LC39</b>							Naddo
<b>LC40</b>							Do
<b>LC41</b>							Ni Wnaed Sylwadau
<b>LC42</b>							Ni Wnaed Sylwadau
<b>LC43</b>							Naddo
<b>LC44</b>							Naddo
<b>LC45</b>							Naddo
<b>LC46</b>							Do
<b>LC47</b>							Do
<b>LC48</b>							Do
<b>LC49</b>							Do
<b>LC50</b>							Do
<b>LC51</b>							Do
<b>LC52</b>							Naddo
<b>LC53</b>							Ni Wnaed Sylwadau
<b>LC54</b>							Naddo
<b>LC55</b>							Naddo
<b>LC56</b>							Do
<b>LC57</b>							Do – Cywir yn y fersiwn a gyflwynwyd

LC58							Do
LC59							Do
LC60							Do
LC61							Ni Wnaed Sylwadau
LC62							Do, dygwyd gwelliannau yn y Rheoliadau ymlaen
LC62 (Diwygiwyd)							Naddo
LC63							Do
LC64							Do
LC65							Naddo
LC66							Naddo
LC67							Do
LC68							Do
LC69							Do
LC70							Naddo
LC71							Do
LC72							Ni Wnaed Sylwadau
LC73							Naddo
LC74							Do
LC75							Naddo
LC76							Naddo

LC77							Naddo
LC78							Naddo
LC79							Naddo
LC80							Naddo
LC81							Naddo
LC82							Naddo
LC83							Do
LC84							Do
LC85							Naddo
LC86							Naddo
LC87							Naddo
LC88							Naddo
LC89							Ni Wnaed Sylwadau
LC90							Ni Wnaed Sylwadau
LC91							Naddo
LC92							Naddo
LC93							Naddo
LC94							Gwall teipio yn unig a gywirwyd
LC95							Naddo
LC96							Nid anfonwyd i'w argraffu

<b>LC96</b> Diwygiwyd							Do, un fân bwynt yn unig oedd ar ôl.
<b>LC97</b>							Do, cywirwyd o dan RhS22.12A
<b>LC98</b>							Ni Wnaed Sylwadau
<b>LC99</b>							Ni Wnaed Sylwadau
<b>LC100</b>							Gorchymyn ddim ar gael
<b>LC101</b>			Anghysonderau Gweithdrefnol				Mater yn dal heb ei benderfynu
<b>LC102</b>							Ni Wnaed Sylwadau
<b>LC103</b>							Do
<b>LC104</b>							Naddo
<b>LC105</b>							Ni Wnaed Sylwadau
<b>LC106</b>							Do
<b>LC107</b>							Naddo
<b>LC108</b>							Naddo
<b>LC109</b>							Naddo
<b>LC110</b>							Naddo
<b>LC111</b>							Naddo
<b>LC112</b>							Ni Wnaed Sylwadau
<b>LC113</b>							Gorchymyn ddim ar gael
<b>LC114</b>							Do

<b>LC115</b>							Do
<b>LC116</b>							Do
<b>LC117</b>							Gorchymyn ddim ar gael

*Ar sawl achlysur cyfeiriodd Adroddiadau'r Pwyllgor hefyd at yr angen am osod troednodiadau mewn fformat colofn ddeuol lle roeddent wedi'u lleoli yn anghywir yn y copi a anfonwyd at y Pwyllgor. Fodd bynnag, cywirwyd y materion hyn bob tro yn y cam argraffu terfynol ac unig bwrpas y sylw hwn oedd er mwyn atgoffa. Felly nid adlewyrchwyd y mân sylw hwn yn y crynodebau.*

## CYNNWYS

LC01 Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 1999 (Cychwyn) (Cymru) 1999

LC02 Rheoliadau Addysg (Cymhelliant Hyfforddi Athrawon Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cymru) 1999

LC03 Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru)1999

LC04 Rheoliadau Addysg (Gwerthuso Athrawon Ysgol) (Cymru) 1999

LC05 Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr) (Eithriadau) (Cymru) 1999

LC06 Rheoliadau Addysg (Derbyniadau) (Cymru)1999

LC07 Rheoliadau Addysg (Newid Categori Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 1999

LC08 Gorchymyn Addysg (Panelau Derbyniadau Ysgol: Côd Ymarfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Diwrnod Penodedig)1999

LC09 Rheoliadau Addysg (Staff Prydau Bwyd Ysgolion)(Cymru) 1999

LC10 Gorchymyn Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru)1999

LC11 Rheoliadau Cymorth Trwsio'r Cartref (Estyniad) (Cymru) 1999

LC12 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Costau Teithio a Dileu Taliadau) (Diwygio) (Cymru) 1999

LC13 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 1999

LC14 Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Cychwyniad Rhif 1) (Cymru) 1999

LC15 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) (Diwygio) 1999

LC 16 Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad)

(Diwygio) 1999

LC17 Rheoliadau Rhestr Drethu Ganolog (Cymru) 1999

LC18 Gorchymyn Ymgwymerwyr D•r (Gwerthoedd Trethiannol) (Cymru) 1999

LC18 Gorchymyn Ymgwymerwyr D•r (Gwerthoedd Ardrethol) (Cymru) 1999

Diwygio

LC19 Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (Diddymu Rhif 2) 1999

LC20 Gorchymyn Sefydlu Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Caerdydd a'r Fro 1999

LC21 Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 1999

LC22 Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflen Gais) a (Ffurflen Gais Gymraeg) (Diwygio) (Cymru) 1999

LC23 Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) (Diwygio) a (Ffurflen a Manylion Cymraeg) (Diwygio) (Cymru) 1999

LC24 Gorchymyn British Gas plc (Gwerth Ardrethol) (Cymru) 1999 LC25 Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 1999

LC26 Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Gwyddoniaeth) (Cymru) 2000

LC27 Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Saesneg) (Cymru) 2000 LC28

Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Mathemateg) (Cymru) 2000 LC29

Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Ieithoedd Tramor Modern) 2000

LC30 Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Celf) (Cymru) 2000 LC31

Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Technoleg) (Cymru) 2000 LC32

Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Addysg Gorfforol) (Cymru) 2000

LC33 Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Hanes) (Cymru) 2000 LC34

Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Daearyddiaeth) (Cymru) 2000 LC35  
Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Cerddoriaeth) (Cymru) 2000 LC36  
Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Cymraeg) (Cymru) 2000 LC37  
Gorchymyn Cartrefi i Bobl Fyw Ynddynt (Personau sy'n Ddarostyngedig i Reolaeth Fewnfudo) (Diwygio) (Cymru) 1999 LC38 Rheoliadau  
Tir Gofal a Ffermio Organig (Diwygio) (Cymru) 1999 LC39 Rheoliadau Esgyrn Cig Eidion (Diwygio) (Cymru) 1999 (diwygio) LC40  
Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyfff Penodedig) (Cymru) 2000 LC41 Rheoliadau Diwygio Cynghorau Iechyd Cymuned (Cymru)  
2000 LC42 Rheoliadau Ardollau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2000 LC43 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid  
Cyfalaf) (Cyfradd y Gostyngiad ar gyfer 2000/2001) (Cymru) 2000 LC44 Gorchymyn Llywodraeth Leol (Gwerth Gorau) (Eithrio) (Cymru)  
2000 LC45 Gorchymyn Llywodraeth Leol (Gwerth Gorau) (Adolygiadau a Chynlluniau Perfformiad) (Cymru) 2000 LC46 Rheoliadau  
Addysg (Grantiau Safonau Addysg) (Cymru) 2000 LC47 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2000  
LC48 Gorchymyn Railtrack plc (Gwerthoedd Ardrethol) (Cymru) 2000 LC49 Rheoliadau Hadau (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) 2000 LC50  
Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Gostyngiadau) a (Darpariaethau Trosiannol Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2000 LC51  
Gorchymyn Ardrethu a Phraeseptau (Addasiadau Terfynol) (Diwygio) (Cymru) 2000 LC52 Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft  
(Diwygio) (Cymru) 2000 LC53 Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Rhif 2) (Diwygio) (Cymru) 2000 LC54  
Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2000 LC55 Gorchymyn Treth Gyngor (Anheddau Esempt) (Diwygio) (Cymru)  
2000 LC56 Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Terfynau Gwariant Dewisol) (Diwygio) (Cymru) 2000 LC57 Gorchymyn Ymddiriedolaethau  
Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cyfalaf Cychwynnol) (Cymru) 2000 LC58 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol)  
Diwygio (Cymru) 2000 LC59 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau ac Offer) Diwygio (Cymru) 2000 LC60  
Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) Diwygio (Cymru) 2000 LC61 Gorchymyn Awdurdod Datblygu  
Cymru (Terfyn Ariannol) 2000 LC62 Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau Taladwy) (Cymru) 2000 LC63 Rheoliadau Cyfraniadau  
Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 1999 LC64 Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2000 LC65 Gorchymyn  
Deddf Iechyd (Practisiau Deiliaid-cronfa) (Trosoglwyddo Asedau, Arbedion, Hawliau a Rhwymedigaethau a Darpariaethau Trosiannol)  
Cymru 2000 LC66 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) Cymru) 2000 LC67 Rheoliadau Treth Gyngor  
(Atebolrwydd Perchnogion i Dalu) (Diwygio) (Cymru) 2000 LC68 Gorchymyn y Diwydiant Cyflenwi Trydan (Gwerthoedd Ardrethol)  
(Cymru) 2000 LC69 Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2000 LC70 Gorchymyn Pysgota Môr  
(Gorfodi Mesurau ar gyfer Adfer y Stoc Penfreision) (Môr Iwerddon) (Cymru) 2000

LC71 Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2000 LC72 Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau  
Galw am Dalu) (Diwygio) (Cymru) 2000 LC73 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Diwygio) (Cymru) 2000 LC74 Gorchymyn Tai (Hawl i  
Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Rhif 2) (Cymru) 2000 LC75 Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2000

LC76 Gorchymyn Personau sy'n Ddarostyngedig i Reolaeth Fewnfudo (Llety

Awdurdodau Tai (Diwygio) (Cymru) 2000

LC77 Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2000

LC78 Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) 2000

LC79 Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) 2000

LC80 Rheoliadau Digartrefedd (Cymru) 2000



LC81 Rheoliadau'r Comisiwn Gwella Iechyd (Swyddogaethau) (Cymru) 2000

LC82 Gorchymyn Dociau a Harbyrau (Gwerthoedd Ardrethol) (Cymru) 2000

LC83 Rheoliadau Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Swyddogaethau Awdurdodau Iechyd a Threfniadau Gweinyddu) (Cymru) 2000

LC84 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Dewis Ymarferydd

Meddygol) Diwygio (Cymru) 2000

LC85 Gorchymyn Diwygio Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Bro Morgannwg (Sefydlu) 2000

LC86 Rheoliadau'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Diwygio) (Cymru) 2000

LC87 Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ynghylch

Cwotâu a Physgota gan Drydydd Gwledydd) (Cymru) 2000

LC88 Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro â Lloeren) (Cymru) 2000

LC89 Rheoliadau Addysg (Datganiadau Alldro) (Cymru) 2000

LC90 Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflenni Cais) (Diwygio) (Cymru) 2000

LC91 Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion Rhagnodedig) a (Ffurflenni a Manylion Cymraeg) (Diwygio) (Cymru) 2000

LC92 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol

Cyffredinol) Diwygio (Cymru) 2000

LC93 Rheoliadau Cwotâu Cynhyrchion Llaeth (Diwygio) (Cymru) 2000

LC94 Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2000

LC95 Rheoliadau Cynhyrchion Llaeth (Hylendid) (Taliadau) (Diwygio) (Cymru) 2000

LC96 Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000

LC97 Rheoliadau Gorchymynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000

LC98 Gorchymyn Pwnc Sylfaen (Diwygio) (Cymru) 2000

LC99 Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Ieithoedd Tramor Modern) (Cymru) 2000

LC100 Gorchymyn Cynllun Marchnata Gwlân Prydain (Diwygio) 2000

LC101 Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Rheoli'r Gymuned)  
(Cymru) 2000

LC102 Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2000

LC103 Rheoliadau (Diwygio) Rheoliadau Addysg (Trawsnewid i'r Fframwaith  
Newydd) (Ysgolion Newydd, Grwpiau ac Amrywiol) 1999 (Cymru) 2000

LC104 Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000

LC105 Rheoliadau Diwygio Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol)  
(Cymru) 2000

LC106 Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyr) (Diwygio) (Cymru) 2000

LC107 Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyr) (Mân Dreuliau) (Diwygio)  
(Cymru) 2000

LC108 Rheoliadau Bwyd Meddygol (Cymru) 2000

LC109 Rheoliadau Bwydydd a Addaswyd yn Enetig a Bwydydd Newydd  
(Labelu) (Cymru) 2000

LC110 Rheoliadau Diwygio (Rhif 2) y Gwasanaeth Iechyd Gwladol  
(Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2000

LC111 Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau)  
2000

LC112 Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau

Ychwanegol) 2000

LC113 Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Hylendid) (Diwygio) (Cymru) 2000

LC114 Rheoliadau Diwygio (Rhif 3) y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

(Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2000

LC115 Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau y Gellir eu Codi) (Diwygio)

(Cymru) 2000

LC116 Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgol (Cymru) 2000

LC117 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) (Cymru)

2000

**LC01 Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 1999 (Cymru) (Cychwyn) 1999** (OS 1999 Rhif 2242 (Cy.2))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 14<sup>eg</sup> Medi 1999*

*Gwnaed o dan weithdrefn frys: 5<sup>ed</sup> Awst 1999*

Yr unig sylw a wnaed gan y Pwyllgor yn ei adroddiad i'r Cynulliad oedd fod angen unioni'r testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Gwellhawyd hynny yn y fersiwn terfynol a argraffwyd.

**LC02 Rheoliadau Addysg (Cymhelliant Hyfforddi Athrawon Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cymru) 1999** (OS 1999 Rhif 2816 (Cy.17))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 14<sup>eg</sup> Medi 1999*

*Gwnaed o dan weithdrefn frys: 31<sup>ain</sup> Awst 1999*

Gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol yn ymwneud â'r angen am fwy o eglurder yn y testun Cymraeg.

Awgrymwyd hwyrach y buasai'n well petai'r rheoliadau'n wedi eu drafftio mewn ffordd mwy hwylus ar gyfer defnyddwyr. Fodd bynnag, gan iddynt gael eu gwneud o dan y weithdrefn frys ni chredai'r Pwyllgor fod y rheoliadau yn ddiffygiol o dan Reol Sefydlog 11.5, gofynnodd y Pwyllgor i'w sylwadau gael eu cofnodi ar gyfer y dyfodol.

**LC03 Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999** (OS 1999 Rhif 2817 (Cy.18))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 14<sup>eg</sup> Medi 1999*

*Gwnaed o dan weithdrefn frys: 31<sup>ain</sup> Awst 1999*

Gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yn ymwneud yn arbennig â'r angen i ddefnyddio iaith glir a niwtral o safbwynt cenedl enwau yn y dyfodol. Mynegwyd pryderon ynglŷn â gwallau argraffu a gwallau gramadegol.

#### **LC04 Rheoliadau Addysg (Gwerthuso Athrawon Ysgol) (Cymru) 1999** (OS 1999 Rhif 2888 (Cy.25))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 28<sup>ain</sup> Medi 1999*

*Gwnaed o dan weithdrefn frys: 31<sup>ain</sup> Awst 1999*

Daeth y Pwyllgor Deddfau i'r casgliad fod adrodd yn ôl yn swyddogol o dan Reol Sefydlog 11.5 yn ymddangos yn angenrheidiol o dan 11.5 (v) a 11.5 (vi).

Yn unol â hynny ysgrifennodd y Cadeirydd at yr Ysgrifennydd Cynulliad o dan Rh/S. 11.4. Cytunodd yr Ysgrifennydd Cynulliad ag ystyriaethau'r Pwyllgor ond daeth i'r casgliad y dylid gadael y broses o unioni'r diffygion i reoliadau y'u bwriedir er mwyn cyflwyno system gwerthuso newydd a ddaeth i rym o 1<sup>af</sup> Medi 2000.

#### **LC05 Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr) (Eithriadau) (Cymru) 1999** (OS 1999 Rhif 2862 (Cy.22))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 28<sup>ain</sup> Medi 1999*

*Gwnaed o dan weithdrefn frys: 26<sup>ain</sup> Awst 1999*

Gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yn ymwneud â gwallau gramadegol gan gyfeirio at y ffaith y gallai'r rheoliadau fod yn fwy clir mewn rhai manau.

#### **LC06 Rheoliadau Addysg (Derbyniadau) (Cymru) 1999** (OS 1999 Rhif 2800 (Cy.14))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 28<sup>ain</sup> Medi 1999*

*Gwnaed o dan weithdrefn frys: 31<sup>ain</sup> Awst 1999*

Gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol ar wallau argraffu a gwallau gramadegol gan gyfeirio at y ffaith y gallai'r rheoliadau fod yn fwy clir mewn rhai manau.

#### **LC07 Rheoliadau Addysg (Newid Categori Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 1999** (OS 1999 Rhif 2633 (Cy.7))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 28<sup>ain</sup> Medi 1999*

*Gwnaed o dan weithdrefn frys: 23<sup>ain</sup> Awst 1999*

Gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol am fwy o eglurder yn yr arddull ddrafftio.

**LC08 Gorchymyn Addysg (Panelau Derbyniadau Ysgol: Côt Ymarfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Diwrnod Penodedig) 1999** (OS 1999 Rhif 2893 (Cy.26))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 28<sup>ain</sup> Medi 1999*

*Gwnaed o dan weithdrefn frys: 31<sup>ain</sup> Awst 1999*

Gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol ar gyfer y dyfodol.

**LC09 Rheoliadau Addysg (Staff Prydau Bwyd Ysgolion) (Cymru) 1999** (OS 1999 Rhif 2802 (Cy.15))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 28<sup>ain</sup> Medi 1999*

*Gwnaed o dan weithdrefn frys: 26<sup>ain</sup> Awst 1999*

Gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol yn ymwneud â'r angen am fwy o eglurder yn y testun Cymraeg.

**LC10 Gorchymyn Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) 1999** (OS 1999 Rhif 2641 (Cy.8))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 12<sup>fed</sup> Hydref 1999*

*Gwnaed o dan weithdrefn frys: 11<sup>eg</sup> Awst 1999*

Gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol yn ymwneud â'r angen am fwy o eglurder.

**LC11 Rheoliadau Cymorth Trwsio'r Cartref (Estyniad) (Cymru) 1999** (OS 1999 Rhif 3084 (Cy.35))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 12<sup>fed</sup> Hydref 1999*

*Gwnaed: 16<sup>eg</sup> Tachwedd 1999*

Tynnodd adroddiad y Pwyllgor sylw at yr iaith sy'n gwahaniaethu rhwng cenedl enwau a ystyriwyd yn anaddas yn y Nodyn Esboniadol. Mae'r mater hwnnw wedi'i gywiro yn y fersiwn terfynol a argraffwyd.

**LC12 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Costau Teithio a Dileu Taliadau) (Diwygio) (Cymru) 1999** (OS 1999 Rhif 2840 (Cy.20))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 2<sup>il</sup> Tachwedd 1999*

*Gwnaed o dan weithdrefn frys: 5<sup>ed</sup> Hydref 1999*

Daeth y Pwyllgor Deddfau i'r casgliad fod adrodd yn ôl yn ffurfiol o dan Reol Sefydlog 11.5 yn ymddangos yn angenrheidiol. Roedd gan y rheoliadau effaith rhannol ôl-weithredol gan iddynt gael eu gwneud a dod i rym ar yr un diwrnod. Ysgrifennodd y Cadeirydd at yr Ysgrifennydd Cynulliad (Jane Hutt) o dan Rh.S. 11.4. Yn ei hymateb, derbyniodd hi'r pwynt a wnaed ond gan nad oedd yn effeithio ar ddilysrwydd yr offeryn fe'i nododd ar gyfer y dyfodol.

**LC13 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) Diwygio (Cymru) 1999** (OS 1999 Rhif 2841 (Cy.21))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 2<sup>il</sup> Tachwedd 1999*

*Gwnaed o dan weithdrefn frys: 5<sup>ed</sup> Hydref 1999*

Daeth y Pwyllgor Deddfau i'r casgliad fod adrodd yn ôl yn ffurfiol o dan Reol Sefydlog 11.5 yn ymddangos yn angenrheidiol. Roedd gan y rheoliadau effaith rhannol ôl-weithredol gan iddynt gael eu gwneud a dod i rym ar yr un diwrnod. Ysgrifennodd y Cadeirydd at yr Ysgrifennydd Cynulliad (Jane Hutt) o dan Rh.S. 11.4. Yn ei hymateb, derbyniodd hi'r pwynt a wnaed ond gan nad oedd yn effeithio ar ddilysrwydd yr offeryn fe'i nododd ar gyfer y dyfodol.

Gwnaeth y Pwyllgor sylw hefyd am iaith sy'n gwahaniaethu rhwng cenedl enwau a ystyriwyd yn anaddas.

**LC14 Gorchymyn Deddf Iechyd (Cychwyniad Rhif 1) (Cymru)** (OS 1999 Rhif 3184 (Cy.42))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 9<sup>fed</sup> Tachwedd 1999*

*Gwnaed o dan weithdrefn frys: 28<sup>ain</sup> Hydref 1999*

Gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol. Cywirwyd y camsillafiad o'r gair "yn~~gl~~n" yn y Nodyn Esboniadol yn y fersiwn terfynol a argraffwyd ond nid ymdriniwyd ag unrhyw un o'r sylwadau eraill a wnaed gan y Pwyllgor.

**LC15 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) (Diwygio) 1999** (OS 1999 Rhif 2935 (Cy.27))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 9<sup>fed</sup> Tachwedd 1999*

*Gwnaed o dan weithdrefn frys: 29<sup>ain</sup> Hydref 1999*

Gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol, ac ymdriniwyd â hwy i gyd yn y fersiwn terfynol a argraffwyd.

**LC16 Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) (Diwygio)** (OS 1999 Rhif 3185 (Cy.43))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 16<sup>eg</sup> Tachwedd 1999*

*Gwnaed o dan weithdrefn frys: 28<sup>ain</sup> Hydref 1999*

Gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol, ac ystyriwyd y rhan fwyaf ohonynt yn y fersiwn terfynol a argraffwyd.

**LC17 Rheoliadau Rhestr Drethu Ganolog (Cymru) 1999** (OS 1999 Rhif 3453 (Cy.50))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 16<sup>eg</sup> Tachwedd 1999*

*Gwnaed: 22<sup>ain</sup> Rhagfyr 1999*

Gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol, ac ystyriwyd y rhan fwyaf ohonynt yn y fersiwn terfynol a argraffwyd.

**LC18 Gorchymyn Ymgwymerwyr D•r (Gwerthoedd Trethiannol) (Cymru) 1999**

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau (yn wreiddiol) ar: 23<sup>ain</sup> Tachwedd 1999*

Daeth y Pwyllgor Deddfau i'r casgliad fod adrodd yn ôl yn swyddogol o dan Reol Sefydlog 11.5 yn ymddangos yn angenrheidiol. Ysgrifennodd y Cadeirydd at yr Ysgrifennydd Cynulliad (Peter Law) o dan Rh.S. 11.4. O ganlyniad tynnwyd y Gorchymyn yn ôl.

**LC18 Gorchymyn Ymgwymerwyr D•r (Gwerthoedd Trethiannol) (Cymru) 2000 Diwygio** (OS 2000 Rhif 299 (Cy.6))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 18<sup>fed</sup> Ionawr 2000*

*Gwnaed: 31<sup>ain</sup> Ionawr 2000*

Daeth Adroddiad y Cynulliad i'r casgliad fod holl sylwadau'r Pwyllgor wedi cael eu hystyried yn y drafft diweddaraf o'r Gorchymyn hwn.

**LC19 Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (Diddymu Rhif 2) 1999** (OS 1999 Rhif 3450 (Cy.48))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 23<sup>ain</sup> Tachwedd 1999*

*Gwnaed: 15<sup>fed</sup> Rhagfyr 1999*

Gwnaeth y Pwyllgor rai fân sylwadau cyffredinol gan gynnwys iaith sy'n gwahaniaethu rhwng cenedl enwau a throednodiadau, ac ystyriwyd y rheiny i gyd yn y fersiwn terfynol a argraffwyd.

**LC20 Gorchymyn Sefydlu Ymddiredolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro 1999** (OS 1999 Rhif 3451 (Cy.49))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 23<sup>ain</sup> Tachwedd 1999*

*Gwnaed: 15<sup>fed</sup> Rhagfyr 1999*

Gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol gan gynnwys, aileirio'r Nodyn Esboniadol i'w wneud yn fwy clir a chyfeiriad at iaith sy'n gwahaniaethu

rhwng cenedl enwau, ac ystyriwyd rhai ohonynt yn y fersiwn terfynol a argraffwyd.

**LC21 Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 1999** (OS 1999 Rhif 3468 (Cy.54))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 23<sup>ain</sup> Tachwedd 1999*

*Gwnaed: 15<sup>ed</sup> Rhagfyr 1999*

Gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol am fwy o eglurder gan gynnwys awgrymiadau ar gyfer newidiadau i'r testun Cymraeg yn y Nodyn Esboniadol. Cyfeiriwyd at ddyddiadau coll a'r ffaith fod y rheoliadau hefyd yn cynnwys iaith sy'n gwahaniaethu rhwng cenedl enwau. Ystyriwyd rhai o'r pwyntiau hyn yn y fersiwn terfynol a argraffwyd.

**LC22 Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen Gais) a (Ffurflen Gais Gymraeg) (Diwygio) (Cymru)** (OS 1999 Rhif 3469 (Cy.55))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 23<sup>ain</sup> Tachwedd 1999*

*Gwnaed: 22<sup>ain</sup> Rhagfyr 1999*

Gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol yn ymwneud â'r angen am fwy o eglurder yn y testun Cymraeg a'r Nodyn Esboniadol. Cyfeiriwyd hefyd at ddyddiad coll.

Nodwyd y dylai fformat y ddwy atodlen (un yn Saesneg, a'r llall yn Gymraeg) fod wedi'u cyflwyno fel un atodlen mewn fformat colofn dwyieithog. Adlewyrchwyd y rhan fwyaf o'r pwyntiau hyn yn y fersiwn terfynol a argraffwyd.

**LC23 Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) (Diwygio) (Cymru) 1999** (OS 1999 rhif 3470 (Cy.56))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 23<sup>ain</sup> Tachwedd 1999*

*Gwnaed: 22<sup>ain</sup> Rhagfyr 1999*

Gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol yn ymwneud â'r angen am fwy o eglurder yn y testun Cymraeg a'r Nodyn Esboniadol. Cyfeiriwyd at ddyddiad coll, ac y dylai'r pennawd "Dyfyniad a Dechreuad" gynnwys cyfeiriad at "Cais" a hefyd defnydd diangen o iaith sy'n gwahaniaeth rhwng cenedl enwau.

Nodwyd eto y dylai fformat y ddwy atodlen (un yn Saesneg, a'r llall yn Gymraeg), fod yn un atodlen ar fformat colofn ddwyieithog. Adlewyrchwyd y rhan fwyaf o'r pwyntiau hyn yn argraffiad terfynol yr offeryn.

**LC24 Gorchymyn British Gas plc (Gwerth Ardrethol) (Cymru) 1999** (OS 2000 Rhif 352 (Cy.10))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 7<sup>ed</sup> Rhagfyr 1999*



*Gwnaed: 31<sup>ain</sup> Ionawr 2000*

Ni wnaed unrhyw sylwadau ar y Gorchymyn hwn. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle i ystyried drafft cynharach lle y nodwyd rhai gwallau a'u cywiro o ganlyniad i hynny.

**LC25 Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 1999** (OS 2000 Rhif 349 (Cy.7))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 7<sup>fed</sup> Rhagfyr 1999*

*Gwnaed: 19<sup>eg</sup> Ionawr 2000*

Ni wnaed unrhyw sylwadau ar y Gorchymyn hwn. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle i ystyried drafft cynharach lle y nodwyd rhai gwallau a'u cywiro o ganlyniad i hynny.

**LC26 Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Gwyddoniaeth) (Cymru) 2000** (OS 2000 Rhif 1099 (Cy.77))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 7<sup>fed</sup> Rhagfyr 1999*

*Gwnaed: 10<sup>fed</sup> Ebrill 2000*

Ni wnaed unrhyw sylwadau ar y Gorchymyn hwn. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle i ystyried drafft cynharach lle y nodwyd rhai gwallau a'u cywiro o ganlyniad i hynny.

**LC27 Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Saesneg) (Cymru) 2000** (OS 2000 Rhif 1154 (Cy.85))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 7<sup>fed</sup> Rhagfyr 1999*

*Gwnaed: 10<sup>fed</sup> Ebrill 2000*

Ni wnaed unrhyw sylwadau ar y Gorchymyn hwn. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle i ystyried drafft cynharach lle y nodwyd rhai gwallau a'u cywiro o ganlyniad i hynny.

**LC28 Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Mathemateg) (Cymru) 2000** (OS 2000 Rhif 1100 (Cy.78))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 7<sup>fed</sup> Rhagfyr 1999*

*Gwnaed: 10<sup>fed</sup> Ebrill 2000*

Ni wnaed unrhyw sylwadau ar y Gorchymyn hwn. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle i ystyried drafft cynharach lle y nodwyd rhai gwallau a'u cywiro o ganlyniad i hynny.

**LC29 Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Ieithoedd Tramor Modern) (Cymru) 2000** (OS 2000 Rhif 1157 (Cy.88))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 7<sup>fed</sup> Rhagfyr 1999*

*Gwnaed: 10<sup>fed</sup> Ebrill 2000*

Ni wnaed unrhyw sylwadau ar y Gorchymyn hwn. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle i ystyried drafft cynharach lle y nodwyd rhai gwallau a'u cywiro o ganlyniad i hynny.

**LC30 Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Celf) (Cymru) 2000** (OS 2000 Rhif 1153 (Cy.84))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 7<sup>fed</sup> Rhagfyr 1999*

*Gwnaed: 10<sup>fed</sup> Ebrill 2000*

Ni wnaed unrhyw sylwadau ar y Gorchymyn hwn. Cafodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle i ystyried drafft cynharach lle y nodwyd rhai gwallau a'u cywiro o ganlyniad i hynny.

**LC31 Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Technoleg) (Cymru) 2000** (OS 2000 Rhif 1159 (Cy.90))

*Ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfau ar: 7<sup>fed</sup> Rhagfyr 1999*

*Gwnaed: 10<sup>fed</sup> Ebrill 2000*

